



TAFLEN GYNULLEIDFAOL

CYFLWYNIAD

Siant Taizé:

F'enaïd, mola'r lôr, bendithia'i enw gwiw,

F'enaïd, mola'r lôr, bendithia'i enw gwiw,

RHAN 1 – CYDNABYDDWN EIN GWENDID

Dad nefol, y mae pob calon yn agored i ti. Ni allwn guddio un dim oddi wrthyt. Glanha ni â fflam dy Ysbryd Glân er mwyn inni dy garu a'th addoli'n ffyddlon, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Siant Taizé:

O Arglwydd Crist, rho im dy oleuni,

Nid ofnaf ansicrwydd y tywyllwch du,

O Arglwydd Crist, rho im dy oleuni,

Tyrd i'm calon, tyrd ataf i.

RHAN 2 – MAE DUW YN CARU, DERBYN A MADDAU.

Ceisiwch yr Arglwydd tra gellir ei gael;

Galwch arno tra bydd yn agos.

Gadawed y drygionus eu ffyrdd

A'r anghyfiawn eu meddyliau.

Dychwelwch at yr Arglwydd, a fydd yn trugarhau;

At ein Duw, a fydd yn maddau yn helaeth.



Hollalluog a thrugarog Dduw, yr ydym wedi pechu yn dy erbyn ar feddwl, gair a gweithred. Nid ydym wedi dy garu â'n holl galon; nac wedi caru eraill fel y mae Crist yn ein caru ni. Y mae'n wir ddrwg gennym. Yn dy drugaredd, maddau inni. Cynorthwya ni i ddiwygio ein bywydau; fel y byddwn yn ymhyfrydu yn dy ewyllys ac yn rhodio yn dy ffyrdd, er gogoniant i'th enw. Amen.

Bydded i Dduw hollalluog, sy'n maddau i bawb sy'n wir edifeiriol, drugarhau wrthy ch/wrthym, a'ch/a'n rhyddhau o bechod, eich/ein cadarnhau mewn daioni a'ch/a'n cadw yn y bywyd tragwyddol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Siant Taizé:

Yr Iôr yw ein gwawr, ein gwawr a'n lachawdwr
yn Nuw mae'n ffydd, yn Nuw mae'n ffydd.

RHAN 3 – TYFU YN NUW

Cymer Arglwydd, ein rhyddid. Derbyn fy nghof, fy neall, a'm holl ewyllys. Mae popeth sydd gennyf yn rodd gennyf ti. Dychwelaf y cyfan i ti ac ildio'n llwyr i ti wneud yn ôl dy ewyllys. Dyro i mi yn unig dy gariad a'th ras, fel y byddaf yn gyfoethog ynddynt ac heb angen i ofyn am fwy. Amen.



STAFELL FYW CAERDYDD
YN AGOR Y DRWS I FYWYD NEWYDD
LIVING ROOM CARDIFF
OPENING THE DOOR TO A NEW LIFE

GWASANAETH AR GYFER **SUL ADFERIAD**

Siant Taizé:

I'th ofal di, fy Ngheidwad, rhof iti'n llawen fy einioes,
I'th ofal di, fy Ngheidwad, rhof iti'n llawen fy einioes.

RHAN 4 – CARU BYD DUW

Arweinydd: Dad, dyma ein gweddi

Hollalluog Dduw, yng Nghrist, rwyf yn gwneud pob peth yn newydd; trawsffurfia dlodi ein natur â chyfoeth dy ras, ac adnewyddu ein bywydau er mwyn adnabod dy ogoniant nefol, drwy Iesu Grist, dy Fab. Amen.

Siant Taizé:

Cyfiawnder a heddw yw teyrnas ein Duw, mwynhâd yn yr Ysbryd Glân Tyrd lôr, ac agor i ni byrth aur dy deyrnas.

CRYNHOI

Bydd yr ymateb i'n eiriolaeth yn:

Pawb: Cymorth ni i wybod ac i wneuthur dy ewyllys

Siant Taizé:

Canmolwch enw'r Arglwydd, holl bobloedd y ddaear lawr;
Canmolwch enw'r Arglwydd, holl bobloedd y ddaear lawr.